# A future in pharmacy
# Dyfodol mewn fferylliaeth

Here's what you need to know.

Dyma beth sydd angen i chi ei wybod.



ROYAL PHARMACEUTICAL SOCIETY

CYMDEITHAS FFERYLLOL FRENHINOL

# What does a pharmacist do?

Pharmacy is the third largest healthcare profession in Great Britain. You'll find pharmacists wherever there are medicines: supplying them, providing advice about them, developing new ones, and offering health services. They're part of the wider healthcare team, ensuring that patients receive the best possible care.

As a pharmacist, you'll need to be an expert in medicines and their use, with a unique set of skills and knowledge. You'll train as a scientist and clinician, then use your scientific know-how advising patients on their medicines and making recommendations on the best medicine for particular conditions and diseases.

Some pharmacists also prescribe medicines on prescriptions, just like doctors. Some work in other roles, with less direct contact with patients, for example in universities, in regulation, or in government organisations, research, publishing and in the pharmaceutical industry.

Pharmacists often work in busy environments, so being organised, logical, able to manage multiple tasks, and remain calm under pressure is essential.

You must have a good eye for detail and be thorough and accurate. You'll also need very good communication skills to explain technical medicines information to patients. You'll be part of a team and often involved in education and training others, so good people skills are also essential.

# Beth mae fferyllydd yn ei wneud?

Fferylliaeth yw'r proffesiwn gofal iechyd trydydd mwyaf ym Mhrydain Fawr. Byddwch yn canfod fferyllwyr ble bynnag y mae meddyginiaethau: yn eu cyflenwi, yn darparu cyngor amdanynt, yn datblygu rhai newydd, ac yn cynnig gwasanaethau iechyd. Maent yn rhan o'r tîm gofal iechyd ehangach, yn sicrhau bod cleifion yn cael y gofal gorau bosibl.

Fel fferyllydd, bydd angen i chi fod yn arbenigwr ar feddyginiaethau a'u defnydd, gyda set unigryw o sgiliau a gwybodaeth. Byddwch yn hyfforddi fel gwyddonydd a chlinigydd, yna'n defnyddio'ch gwybodaeth wyddonol i gynghori cleifion ar eu meddyginiaethau a gwneud argymhellion ar y feddyginiaeth orau ar gyfer cyflyrau a chlefydau penodol.

Mae rhai fferyllwyr hefyd yn rhagnodi meddyginiaethau ar bresgripsiynau, yn union fel meddygon. Mae  rhai yn gweithio mewn rolau eraill, â llai o gysylltiad uniongyrchol â chleifion, er enghraifft mewn prifysgolion, yn rheoleiddio, neu mewn sefydliadau'r llywodraeth, ymchwil, argraffi ac yn y diwydiant fferyllol.

Yn aml mae fferyllwyr yn gweithio mewn amgylcheddau prysur, felly mae'n hanfodol bod yn drefnus, rhesymegol, gallu rheoli tasgau lluosog, ac aros yn ddigyffro o dan bwysau.

Rhaid i chi gael llygad da am fanylion a bod yn drylwyr ac yn gywir. Hefyd bydd arnoch angen sgiliau cyfathrebu da i esbonio gwybodaeth am feddyginiaethau technegol i gleifion. Byddwch yn rhan o dîm ac yn aml maen nhw'n ymwneud ag addysg a hyfforddi pobl eraill, felly mae sgiliau pobl da yn hanfodol hefyd.

# Where can pharmacy take me?

# I ble all fferylliaeth fynd â fi?

**Anywhere!** Pharmacists are valued health professionals, with skills that are in demand worldwide. After completing five years of study and training you'll find doors open to you in so many different areas, offering a career with security, flexibility, variety, opportunity, satisfaction and excellent rewards. As a pharmacist your role will be constantly evolving, as new roles emerge all the time across healthcare. Many of the experiences and skills you'll develop in practice can be transferred to other pharmacy environments and roles.

**Unrhyw le!** Mae fferyllwyr yn weithwyr iechyd proffesiynol gwerthfawr, gyda sgiliau y mae galw mawr amdanynt ledled y byd. Ar ôl cwblhau pum mlynedd o astudio a hyfforddiant byddwch yn canfod bod drysau ar agor i chi mewn cymaint o feysydd gwahanol, gan gynnig gyrfa gyda diogelwch, hyblygrwydd, amrywiaeth, cyfle, boddhad a gwobrau rhagorol. Fel fferyllydd bydd eich rôl yn datblygu'n gyson, wrth i rolau newydd ddod i'r amlwg drwy'r amser ar draws gofal iechyd. Gellir trosglwyddo llawer o'r profiadau a sgiliau byddwch yn eu datblygu mewn ymarfer i amgylcheddau a rolau eraill ym maes fferylliaeth.

## Does it pay well? A yw'n talu'n dda?

As a registered pharmacist you can probably expect a  starting salary of around £20k–£30k depending on the area of pharmacy and location you chose to work in. Within a decade you might be earning anywhere between £35k–£60k – possibly more in some senior positions!

Fel fferyllydd cofrestredig, mae'n debygol y gallwch ddisgwyl cyflog cychwynnol o oddeutu £20k- £30k yn dibynnu ar y maes fferylliaeth a'r lleoliad y gwnaethoch ddewis gweithio ynddo. O fewn degawd gallech fod yn ennill unrhyw le rhwng £35k - £60k - mwy o bosib mewn rhai swyddi uwch!



# Qualifications

To qualify as a pharmacist you must take a four-year Master of Pharmacy (MPharm) degree course followed by successful completion of a year of preregistration training within a pharmacy workplace (for which you get paid). At the end of preregistration training, you must pass the General Pharmaceutical Council (GPhC) registration assessment after which you will be able to register and practise as a pharmacist.



# Cymwysterau

I gymhwyso fel fferyllydd bydd rhaid i chi ddilyn cwrs gradd Meistr mewn Fferylliaeth (MPharm) pedair blynedd a ddilynir gan cwblhau blwyddyn o hyfforddiant cyn-gofrestru'n llwyddiannus o fewn gweithle fferylliaeth (y byddwch yn cael eich talu amdano). Ar ddiwedd yr hyfforddiant cyn cofrestru, bydd rhaid ichi basio asesiad cofrestru'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC) ac wedi hynny byddwch chi'n gallu cofrestru ac ymarfer fel fferyllydd.

Although most courses are geared to those with A-levels in chemistry and two of biology/ mathematics/physics, students may also be considered with chemistry and one of biology/mathematics/physics (and one other subject). You need basic literacy and numeracy skills (e.g. GCSE in English language and mathematics).

A lot of students admitted to schools of pharmacy have other qualifications. These include the Irish School Leaving Certificate, National or Higher National Certificates or Diplomas, International Baccalaureate or Access qualifications.

You can find details on UK Schools of Pharmacy at www.rpharms.com/careers. All GB MPharm degrees are accredited by the GPhC. Please remember it is vital that you check the precise entry requirements of your chosen school of pharmacy.

**If you're wondering what courses or options to take at school, sixth form or college, and are thinking of studying pharmacy at university you'll find the information in this leaflet useful to help you plan and decide your next steps.**

Er bod y mwyafrif o gyrsiau wedi'u trefnu ar gyfer y rhai hynny â lefelau-A mewn cemeg a dau o fywydeg/mathemateg/ffiseg, hefyd gallai myfyrwyr gael eu hystyried gyda chemeg ac un o fywydeg/mathemateg/ffiseg (ac un pwnc arall). Mae arnoch angen sgilau llythrennedd a rhifedd sylfaenol (e.e. TGAU mewn iaith Saesneg a mathemateg).

Mae gan lawer o fyfyrwyr sy'n cael eu derbyn i ysgolion fferylliaeth gymwysterau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys y cymwysterau Tystysgrif Wyddelig am Adael yr Ysgol, Tystysgrifau neu Ddiplomâu Cenedlaethol neu Uwch Genedlaethol, Y Fagloriaeth Ryngwladol neu Fynediad.

Gallwch chi weld manylion ynghylch Ysgolion Fferylliaeth y DU yn www.rpharms.com/careers. Mae pob gradd MPharm DU yn cael ei hardystio gan y GPhC. Cofiwch ei fod yn hanfodol ichi wirio gofynion mynediad manwl yr ysgol fferylliaeth o'ch dewis.

**Os ydych chi'n ystyried pa gyrsiau neu opsiynau i'w cymryd yn yr ysgol, chweched dosbarth neu goleg, ac rydych chi'n ystyried astudio fferylliaeth yn y brifysgol byddwch chi'n canfod fod yr wybodaeth yn y daflen hon yn ddefnyddiol i'ch helpu i gynllunio a phenderfynu ar eich camau nesaf.**

CASE STUDY

ASTUDIAETH ACHOS

## Janice Perkins

### Pharmacy Superintendent, Well

Over my 17 year career with Boots opportunities arose to try different roles including Pharmacy Manager, Branch Manager, District Manager and Professional Development Manager. One of the great things about pharmacy is the wide range of roles you can undertake all which support patient care in slightly different ways. Starting as a community pharmacist working in a branch provided a great foundation for my future career choices and whatever role I've had I've made sure the patient/customer is at the centre of my decision making process.

I joined the Co-operative Pharmacy (now Well) in 2000 as a Business Development Manager and four years later I became Pharmacy Superintendent.

Being a Pharmacy Superintendent is a challenging but rewarding role. I have the opportunity to influence within the business and as the 3rd largest multiple and employer of over 1000 pharmacists I'm asked to contribute to discussions on a number of topics.

### Uwch-arolygydd Fferylliaeth yn Well

Dros fy ngyrfa 17 blynedd gyda Boots fe wnaeth cyfleoedd godi i roi cynnig ar wahanol rolau gan gynnwys Rheolwraig Fferyllfa, Rheolwraig Cangen, Rheolwraig Rhanbarth a Rheolwraig Datblygu Proffesiynol. Un o'r pethau mawr am fferylliaeth yw'r amrediad eang o rolau gallwch chi ymgymryd â nhw ac mae pob un ohonyn nhw'n cefnogi gofal cleifion mewn ffyrdd ychydig yn wahanol. Roedd cychwyn fel fferyllydd cymunedol yn gweithio mewn cangen wedi darparu sylfaen wych ar gyfer fy newisiadau gyrfaol am y dyfodol a pha rôl bynnag dw i wedi'i chael dw i wedi gwneud yn siŵr bod y claf/cwsmer wrth ganol fy mhroes o wneud penderfyniadau.

Ymunes i â'r Fferyllfa Co-operative (Well erbyn hyn) yn 2000 fel Rheolwraig Datblygu Busnes a phedair blynedd yn ddiweddarach des i'n Uwch-arolygydd Fferylliaeth.

Mae bod yn Uwch-arolygydd Fferylliaeth yn rôl heriol ond gwerthfawr. Dw i'n cael y cyfle i ddylanwadu o fewn y busnes ac fel y 3ydd cadwyn mwyaf a chyflogwr mwy na 1000 o fferyllwyr gofynnir imi gyfrannu i drafodaethau ar nifer o byncîau.




# Pharmacists working in community pharmacy

**Community pharmacists work at the front line of healthcare in cities, towns and villages across Great Britain. They work from their own pharmacies or out of local healthcare centres and doctor's surgeries.**

As a community pharmacist your job would be all about helping patients and the public, assessing their conditions and making decisions about which medicines they should take. You'll be involved in dispensing medicines and offering your patients advice and practical help on keeping healthy. It is a very responsible job and community pharmacists tend to be highly respected members of their communities.

**Community pharmacists are also taking on more of the roles that have traditionally been undertaken by doctors, such as the management and monitoring of long term conditions, for example asthma and diabetes, as well as delivering flu vaccinations, and conducting medicines reviews.**

They also help people give up smoking, alter their diets to make them healthier and advise on sexual health matters. Some community pharmacists own their own businesses and enjoy the challenges of management and having responsibility for staff, stock and premises that this brings. Others work for large pharmacy chains and have the opportunity to move around and/or progress onto more senior roles within an established company structure.

# Fferyllwyr sy'n gweithio mewn fferyllfiaeth gymunedol

Mae fferyllwyr cymunedol yn gweithio ar reng flaen gofal iechyd mewn dinasoedd, trefi a phentrefi ledled Prydain Fawr. Maen nhw'n gweithio o'u fferyllfaoedd eu hunain neu o ganolfannau gofal iechyd lleol a meddygfeydd meddygon.

Fel fferyllydd cymunedol byddai'ch gwaith yn golygu helpu cleifion a'r cyhoedd, yn asesu eu cyflyrau ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch pa feddyginiaethau dylen nhw eu cymryd. Byddwch chi'n ymwneud â gweinyddu meddyginiaethau a chynnig cyngor a help ymarferol i'ch cleifion ar gadw'n iach. Mae'n swydd cyfrifol iawn ac mae fferyllwyr cymunedol yn tueddu i fod yn aelodau a berchir yn uchel yn eu cymunedau.

**Mae fferyllwyr cymunedol hefyd yn ymgymryd â mwy o'r rolau a gyflawnwyd yn draddodiadol gan feddygon, fel rheoli a monitro cyflyrau hirdymor, er enghraifft asthma a diabetes, yn ogystal â darparu brechiadau ffliw, a chynnal adolygiadau o feddyginiaethau. Maen nhw hefyd yn helpu pobl i roi'r gorau i smygu, newid eu deiet i'w gwneud yn fwy iach a chynghori ar faterion ynghylch iechyd rhywiol.**

Mae rhai fferyllwyr cymunedol yn berchen ar eu busnesau eu hunain ac yn mwynhau'r heriau rheoli a chael cyfrifoldeb am staff, stoc a safle mae hyn yn ei gyflwyno. Mae eraill yn gweithio i gadwynau fferylliaeth mawr ac mae ganddyn nhw'r cyfle i symud o gwmpas ac/neu symud ymlaen at rolau uwch o fewn strwythur cwmni sefydledig.

# Veterinary pharmacy

# Fferylliaeth filfeddygol

Animals have similar needs to humans, they also get sick and/or suffer from diseases. However, their physiology and anatomy can be very different. Veterinary pharmacists specialise in medicines for the treatment of animals.

You will be involved in the manufacture, supply and distribution of medicines, and work closely with veterinary surgeons and their teams. You may be involved in the treatment of pets, small animals, large groups of animals, e.g. on a farm, livestock (animals reared for food), and more exotic species.

Mae gan anifeiliaid anghenion tebyg i bobl, mane nhw hefyd yn mynd yn sâl ac/neu yn dioddef gan glefydau. Fodd bynnag, gall eu ffisioleg ac anatomi fod yn wahanol iawn. Mae fferyllwyr milfeddygol yn arbenigo mewn meddyginiaethau ar gyfer trin anifeiliaid.

Byddwch chi'n ymwneud â gweithgynhyrchu, cyflenwi a dosbarthu meddyginiaethau, ac yn gweithio'n agos gyda milfeddygon a'u timau. Efallai y byddwch yn ymwneud â thrin anifeiliaid anwes, anifeiliaid bach, grwpiau mawr o anifeiliaid, e.e. ar fferm, da byw (anifeiliaid sy'n cael eu magu ar gyfer bwyd), a rhywogaethau mwy ecsotig.

CASE STUDY

ASTUDIAETH ACHOS

# Lucy Galloway

## Clinical Pharmacist In Hospital

**Specialising In Renal Transplant & Urology**

Every day I apply my expert knowledge to advise on dose adjustments for medicines in renal (kidney) impairment, pharmacokinetic interactions, drug administration and management of adverse drug reactions (side effects). In renal and transplantation the drug regimens are highly complex and a failure to manage them correctly could have catastrophic consequences, so the pharmacist is an important and respected member of the multidisciplinary team.

I am also an independent prescriber and run a medication review clinic for transplant patients. Being able to suggest changes to make it easier for patients to manage their condition is very rewarding.

Other roles that I have include writing guidelines, financial management of drug budgets and teaching and training undergraduates and junior pharmacists.

## Fferyllydd Clinigol mewn Ysbyty

**Yn arbenigo mewn Trawsblaniadau Arennol ac Wroleg**

Pob diwrnod dw i'n defnyddio fy ngwybodaeth arbenigol i gynghori ar addasiadau dos ar gyfer meddyginiaethau mewn nam ar yr arennau (arennau), rhyngweithiadau fferyllol-ginetig, gweinyddu cyffuriau a rheoli adweithiadau niweidiol i gyffuriau (sgil-effeithiau). Mewn trawsblaniadau arennol mae'r systemau cyffuriau'n gymhleth iawn a gallai methu â'u rheoli'n gywir arwain at ganlyniadau trychinebus, felly mae'r fferyllydd yn aelod pwysig a pharchus o'r tîm amlddisgyblaethol.

Hefyd dw i'n rhagnodwr annibynnol a dw i'n rhedeg clinig adolygu meddyginiaeth ar gyfer cleifion sydd wedi cael trawsblaniad. Mae'r gallu i awgrymu newidiadau i'w wneud yn haws i gleifion reoli eu cyflwr yn werthchweil iawn.

Mae rolau eraill sydd gyda fi'n cynnwys ysgrifennu canllawiau, rheolaeth ariannol ar gyllidebau cyffuriau ac addysgu a hyfforddi israddedigion a fferyllwyr is.

# Pharmacists working in hospital pharmacy

**Hospital pharmacists are a vital part of the healthcare team. Working in either the NHS or private hospitals, being a hospital pharmacist means you're part of a team where the focus is firmly on patients.**

There is a lot of variety in hospital pharmacy in terms of what you can do and you will always be working within a team of pharmacy staff which include pharmacists, pharmacy technicians and pharmacy assistants. You might get involved in manufacturing, developing, testing, supplying and monitoring the effectiveness of all of the medicines used in the hospital.

You will also provide advice to other healthcare professionals and not just patients, you may evaluate medicines and develop protocols. You may then specialise later in your career in conditions such as mental health, cancer (oncology) and the heart (cardiology); and specialist areas of practice, such as paediatrics (child health), and the care of older people.

Pharmacists also work in urgent and emergency medicine departments, quality assurance, clinical trials, and in medicines information departments. You will have opportunities to progress into management or teaching roles within the hospital and work closer with the wider healthcare team.



# Fferyllwyr sy'n gweithio mewn fferyllfiaeth ysbytai

**Mae fferyllwyr ysbyty'n rhan hanfodol o'r tîm gofal iechyd. Yn gweithio naill ai yn y GIG neu mewn ysbytai preifat, mae gwaith fferyllydd ysbyty'n golygu eich bod yn rhan o dîm lle mae'r ffocws yn gyfangwbl ar gleifion.**

Mae llawer o amrywiaeth ym maes fferylliaeth ysbyty o ran beth allwch chi ei wneud a thrwy'r amser byddwch chi'n gweithio o fewn tîm o staff fferylliaeth sy'n cynnwys fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa. Efallai byddwch chi'n ymwneud â gweithgynhyrchu, datblygu, profi, cyflenwi a monitro effeithiolrwydd yr holl feddyginiaethau a ddefnyddir yn yr ysbyty.

Hefyd byddwch chi'n darparu cyngor i weithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill ac nid cleifion yn unig, efallai byddwch chi'n gwerthuso meddyginiaethau a datblygu protocolau. Yna gallech chi arbenigo nes ymlaen yn eich gyrfa mewn cyflyrau megis iechyd meddwl, canser (oncoleg) a'r galon (cardioleg); a meysydd arbenigol o ymarfer, megis pediatreg (iechyd plant), a gofal pobl hŷn.

Hefyd mae fferyllwyr yn gweithio mewn adrannau meddygaeth frys ac argyfwng, sicrwydd ansawdd, treialon clinigol, a mewn adrannau gwybodaeth ar gyfer meddyginiaethau. Byddwch chi'n cael cyfleoedd i symud ymlaen at rolau rheoli neu addysgu o fewn yr ysbyty a gweithio'n agosach gyda'r tîm gofal iechyd ehangach.

# Pharmacists working in industrial pharmacy

**Industrial Pharmacists are mainly involved in the research, design, development and testing of new medicines and treatments, ensuring their safety and quality.**

Want to be part of a team responsible for creating and marketing a medicine that helps millions of people all over the world? Industrial pharmacists work in companies that essentially make medicines. However they are involved in different stages of this process, from initial design to public launch and sales.

You will be using the latest technologies, processes and methods to develop new medicines for patients. Although many pharmacists start off their careers in industry in a laboratory based role, the areas that pharmacists work in include many non-lab roles. For example in Medicines Information, Regulatory Affairs, Marketing and Business Development. Industrial pharmacy can be an extremely rewarding career path and can lead to managerial positions or other positions that are not traditionally associated with pharmacy within the same company. A role which involves many different skills is that of a Qualified Person (QP). Here you are responsible for releasing product for supply to the market and confirming that it has been made and tested to the required quality standards in line with the regulated methods and processes. Roles in Quality Assurance can involve overseas travel to locations in your own company and to the sites of suppliers.

# Fferyllwyr sy'n gweithio mewn fferylliaeth ddiwydiannol

**Yn bennaf mae fferyllwyr diwydiannol yn ymwneud ag ymchwilio, dylunio, datblygu a phrofi meddyginiaethau a thriniaethau newydd, yn sicrhau eu diogelwch ac ansawdd.**

Ydych chi eisiau bod yn rhan o dîm sy'n gyfrifol am greu a marchnata meddyginiaeth sy'n helpu miliynau o bobl ledled y byd? Mae fferyllwyr diwydiannol yn gweithio mewn cwmnïau sydd yn ei hanfod yn gweithgynhyrchu meddyginiaethau. Fodd bynnag maen nhw'n ymwneud â gwahanol gamau o'r broses hon, o'r dylunio cychwynnol i'r lansiad cyhoeddus a gwerthiannau.

Byddwch chi'n defnyddio'r technolegau, prosesau a dulliau diweddaraf i ddatblygu meddyginiaethau newydd ar gyfer cleifion. Er bod llawer o fferyllwyr yn cychwyn eu gyrfaoedd ym myd diwydiant mewn rolau a seilir mewn labordy, mae'r meysydd mae fferyllwyr yn gweithio ynddyn nhw'n cynnwys llawer o rolau y tu allan i'r labordy. Er enghraifftmewn Gwybodaeth Feddyginiaethau, Materion Rheoleiddio, Marchnata a Datblygu Busnes. Gall fferylliaeth ddiwydiannol fod yn llwybr gyrfaol gwerthfawr iawn a gall arwain at swyddi rheoli neu swyddi eraill nas cysylltir yn draddodiadol â fferylliaeth o fewn yr un cwmni. Rôl sy'n cynnwys llawer o sgiliau gwahanol yw'r rôl Person Cymwys (QP). Yma rydych chi'n gyfrifol am ryddhau cynnyrch i'w gyflenwi i'r farchnad a chadarnhau ei fod wedi'i wneud a'i brofi hyd at y safonau gofynnol ynghylch ansawdd yn unol â'r dulliau a phrosesau rheoledig. Gall rolau mewn Sicrwydd Ansawdd gynnwys teithio tramor naill ai i leoliadau yn eich cwmni eich hunan ac i safleoedd cyflenwyr.

CASE STUDY

ASTUDIAETH ACHOS

## Monica Sudra

### Scientific Advisor, Glaxosmithkline

Graduating from pharmacy, I undertook a split pre-registration training programme with the NHS and the pharmaceutical industry in product research and development. I was involved in drug formulation and it was exciting and rewarding to work as part of a multidisciplinary team of chemists, statisticians and other pharmacists. I also began to see the variety of career paths pharmacists were well placed to peruse within the industry – such as manufacturing, drug development, commercial sales and marketing roles and regulatory affairs to name a few.

I wanted a career that would allow me to benefit patients, provide me with diversity in my role and enable me to apply my skills and knowledge to further challenge and develop myself. Since qualifying as a pharmacist, I became a Senior Clinical Safety Scientist in pharmacovigilance within the industry, which gave me a great insight into this important field of industry. Progressing from this role, I am now a Scientific Advisor in the vaccines medical affairs division. It is immensely rewarding to work towards continually improving public health, whilst also bringing value to the business.

### Cynghorydd Gwyddonol, Glaxosmithkline

Wedi graddio o fferylliaeth, ymunes i â rhaglen hyfforddi cyn cofrestru gyda'r GIG a'r diwydiant fferyllol mewn ymchwilio a datblygu cynhyrchion. Roeddwn i'n ymwneud â fformiwleiddio cyffuriau ac roedd yn gyffrous a gwerthfawr i weithio fel rhan o dîm amlddisgyblaethol o gemegwyr, ystadegwyr a fferyllwyr eraill. Hefyd dechreues i weld yr amrywiaeth o lwybrau gyrfaol yr oedd fferyllwyr mewn sefyllfa dda i'w gwled o fewn y diwydiant – megis rolau gweithgynhyrchu, datblygu cyffuriau, gwerthiannau masnachol a marchnata a materion rheoleiddiol i enwi ychydig ohonyn nhw.

Roeddwn i eisiau gyrfa a fyddai'n caniatáu imi fod o fudd i gleifion, darparu amrywiaeth i mi yn fy rôl a fy ngalluogi i ddefnyddio fy sgiliau a gwybodaeth i'm herio a datblygu fy hunan ymhellach. Ers cymhwyso fel fferyllydd, fe ddes i'n Uwch-wyddonydd Diogelwch Clinigol mewn fferyllol-wyliadwriaeth o fewn y diwydiant, a roddodd gipolwg gwych imi ar y maes pwysig hwn yn y diwydiant. Gan symud ymlaen o'r rôl hon, erbyn hyn dw i'n Gynghorydd Gwyddonolyn yr adran materion meddygol brechlynnau. Mae'n aruthrol werthfawr i weithio tuag at wella iechyd y cyhoedd yn barhaus, tra'n cyflwyno gwerth i'r busnes hefyd.



## Mahendra Patel

### Academic

Being an academic pharmacist has given me the fantastic opportunity of engaging at the very forefront of science, technology and practice sparing little chance for boredom to set in – without doubt it is a career that is rich in variety and individuality, offering stimulation and excitement throughout with uncompromising personal satisfaction and pride.

Academic pharmacists not only have highly regarded customary roles as lecturers and professors, some may decide to pursue senior management positions within the university and become heads of departments and schools. Others may choose to act as consultants and senior advisors for local, regional, national, and international organisations and institutions, as well as governmental bodies. Often they are at the cutting edge of the profession and are instrumental in influencing pharmacy development, policy, and practice. Their depth and breadth of knowledge in terms of teaching, research and health care service and utilisation can lead to various opportunities within science as well as professional practice.

### Academydd

Mae bod yn fferyllydd academaidd wedi rhoi cyfle gwych i mi gymryd rhan yn y gwaith ar reng flaen gwyddoniaeth, technoleg ac ymarfer sy'n rhoi ond ychydig o gyfle i ddiflastod ymsefydlu - heb os nac oni bai mae'n yrfa sy'n gyfoethog o ran amrywiaeth ac unigoliaeth, gan gynnig ysgogiad a chyffro drwyddi draw gyda boddhad a balchder personol digyfaddawd.

Mae gan fferyllwyr academaidd nid yn unig rolau arferol a berchir yn uchel fel darlithwyr ac athrawon, efallai y bydd rhai'n dilyn swyddi uwch-reoli o fewn y brifysgol a mynd yn benaethiaid adrannau ac ysgolion. Efallai y bydd eraill yn dewis gweithredu fel ymgynghorwyr ac uwch-gynghorwyr ar gyfer sefydliadau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol, a rhyngwladol yn ogystal â chyrff llwodraethol. Yn aml maen nhw ar ar flaen y gad yn y proffesiwn ac yn allweddol o ran dylanwadu ar ddatblygiad polisi ac ymarfer fferylliaeth. Gall dyfnder a lled eu gwybodaeth o ran addysgu, ymchwilio a gwasanaeth a defnydd gofal iechyd arwain at gyfleoedd amrywiol o fewn gwyddoniaeth yn ogystal ag arfer proffesiynol.

# Pharmacists working in academia

**Whether it's teaching, researching, practicing or a mix of all three, academic pharmacists enjoy exciting careers in universities, research institutes and other organisations throughout the world.**

Academic pharmacists educate, train, assess and develop pharmacy students, pre-registration trainees, pharmacists and other healthcare professionals. You will use and apply your pharmacy knowledge and expertise to teach the next generation of pharmacists and others through a variety of teaching methods.

Working alongside the wider educational team, you will update the degree programme and develop learning material to reflect changes in education and practice. Academics also offer general support to students and are often viewed as role models and mentors.

Teacher practitioners have a split role, spending on average around 60% of their time working in hospital, community or industrial pharmacy and 40% of the time as a lecturer.

Academic pharmacists are also thought of as researchers, as the role usually involves conducting some form of research, e.g. in a science based area of practice, drug design or pharmacy services. You will collect evidence, analyse it and use this data to make improvements to medicines and patient's health.

# Fferyllwyr sy'n gweithio yn y byd academaidd

**Os yw'n golygu addysgu, ymchwilio, ymarfer neu gymysgedd o'r holl dri, mae fferyllwyr academaidd yn mwynhau gyrfaoedd cyffrous mewn prifysgolion, sefydliadau ymchwil a sefydliadau eraill ledled y byd.**

Mae fferyllwyr Academaidd yn addysgu, hyfforddi, asesu a datblygu myfyrwyr fferylliaeth, hyfforddeion cyn cofrestru, fferyllwyr a gweithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill. Byddwch chi'n defnyddio a chymhwyso eich gwybodaeth ac arbenigedd fferylliaeth i addysgu'r genhedlaeth nesaf o fferyllwyr trwy amrywiaeth o ddulliau addysgu.

